| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Ionawr 2023 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2022, enwebwyd cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

4. Ers hynny, mae aelod wedi tynnu yn ôl o gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad amgylchedd. Yn ogystal, mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) wedi trosglwyddo i fod yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. O ganlyniad, un cyfarfod herio perfformiad sydd yn cael ei gynnal ar gyfer y meysydd gwaith yma. Felly, mae angen cadarnhau cynrychiolwyr yn dilyn y newidiadau hyn.

5. Rhoddwyd y cyfle i'r pedwar cynrychiolydd presennol i ddatgan diddordeb.

6. Yn dilyn derbyn ymatebion, gweler isod argymhelliad o ran enwebu cynrychiolwyr:

| **Meysydd Gwaith** | **Cynrychiolwyr** |
|---|---|
| Amgylchedd | Cyng. Rhys Tudur<br>Cyng. Llio Elenid Owen |
| Priffyrdd a YGC | Cyng. Stephen Churchman<br>Cyng. Rob Triggs<br><br>*wrth gefn*<br>Cyng. Arwyn Herald Roberts |

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau enwebu'r aelodau a nodwyd uchod i gynrychioli'r pwyllgor.**